**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

19 Tachwedd 2021

Annwyl Huw,

Yn dilyn fy llythyr ar 8 Tachwedd, rwy'n ysgrifennu'n unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ynghylch canlyniad y cyfarfod Gweinidogol Pedairochrog ar Fframweithiau Cyffredin, a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd.

Daethpwyd i gytundeb ar bob un o'r pynciau trawsbynciol a oedd heb eu cytuno, sef proses ar gyfer eithriadau o dan Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig mewn achosion o wahaniaethau a gynigir, ac ar y geiriad mewn perthynas â Chysylltiadau Rhyngwladol a Phrotocol Gogledd Iwerddon. O ran y broses eithriadau, roedd Llywodraeth Cymru wedi mynd â'r holl drafodaethau, negodiadau a phenderfyniadau, heb ragfarn, at yr adolygiad barnwrol sy'n parhau i fynd rhagddo mewn perthynas â Deddf y Farchnad Fewnol.

Hefyd, ymrwymodd yr holl bartïon i adrodd ar y fframweithiau yn y dyfodol fel rhan o'r broses o oruchwylio'r fframweithiau o fewn yr Adolygiad Cysylltiadau Rhyglywodraethol. Bydd y broses hon hefyd yn rhoi sicrwydd i bwyllgorau'r Senedd y byddant yn gallu monitro hynt y fframweithiau dros y tymor hirach. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gynhyrchu papur erbyn diwedd y flwyddyn hon, i'w gytuno gan Weinidogion y pedair llywodraeth, yn amlinellu dull gweithredu ar gyfer adrodd ar Fframweithiau Cyffredin.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig, sy’n rhoi’r newyddion diweddaraf am raglen y Fframweithiau Cyffredin, yn hanner cyntaf mis Rhagfyr cyn i’r rhan fwyaf o fframweithiau gael eu cyhoeddi at ddibenion craffu.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution